# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

**RHAN 4**

CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

### 52 Rheolau safle

(1) Yn achos safle gwarchodedig, ac eithrio safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol, y ceir rheolau safle iddo, mae pob un o'r rheolau i fod yn deler datganedig ym mhob cytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo sy'n ymwneud â llain ar y safle (gan gynnwys cytundeb a wneir cyn cychwyn neu un a wnaed cyn i'r rheolau gael eu gwneud).

(2) Mae "rheolau safle" yn achos safle gwarchodedig yn rheolau a wneir gan y perchennog, un unol ag unrhyw weithdrefn a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n ymwneud—

(a) â rheoli a chynnal y safle, neu

(b) ag unrhyw faterion eraill a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Mae unrhyw reolau a wneir gan y perchennog cyn i'r adran hon ddod i rym ac sy'n ymwneud â mater a grybwyllir yn is-adran (2) yn peidio â bod yn effeithiol ar ddiwedd unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(4) Daw rheolau safle i rym ar ddiwedd unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ymgynghori cyntaf a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, os oes copi o'r rheolau wedi ei adneuo cyn diwedd y cyfnod hwnnw gyda'r awdurdod lleol y mae'r safle gwarchodedig wedi ei leoli yn ei ardal.

(5) Pan fo rheol safle'n cael ei amrywio, daw'r rheol fel y'i hamrywiwyd i rym ar ddiwedd unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ymgynghori cyntaf a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r rheol yn cael ei hamrywio yn unol â'r weithdrefn a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) os oes copi o'r rheol sy'n cael ei hamrywio wedi ei adneuo cyn diwedd y cyfnod hwnnw gyda'r awdurdod lleol y mae'r safle gwarchodedig wedi ei leoli yn ei ardal.

(6) Pan fo rheol safle'n cael ei dileu, daw'r dilead i rym ar ddiwedd unrhyw gyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ymgynghori cyntaf a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r rheol yn cael ei dileu yn unol ag unrhyw weithdrefn a ragnodir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a

(b) os oes hysbysiad o'r dilead wedi ei adneuo cyn diwedd y cyfnod hwnnw gyda'r awdurdod lleol y mae'r safle gwarchodedig wedi ei leoli yn ei ardal.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu na chaniateir i reol safle gael ei gwneud, ei hamrywio na'i dileu oni bai bod cynnig i wneud y rheol, ei hamrywio neu ei dileu yn cael ei hysbysu i feddianwyr cartrefi symudol ar y safle o dan sylw yn unol â'r rheoliadau.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu nad yw rheolau safle, neu unrhyw reolau a grybwyllir yn is-adran (3), yn effeithiol i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth o ran materion a ragnodir gan y rheoliadau.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth o ran datrys anghydfodau—

(a) ynghylch cynnig i wneud rheol safle, ei hamrywio neu ei dileu,

(b) ynghylch a gafodd rheol safle ei gwneud, ei hamrywio neu ei dileu yn unol â'r weithdrefn gymwys a ragnodwyd gan y rheoliadau,

(c) ynghylch a gafodd unrhyw beth y mae'n ofynnol ei adneuo yn rhinwedd is-adran (4), (5) neu (6) ei adneuo cyn diwedd y cyfnod perthnasol.

(10) Caiff darpariaeth o dan is-adran (9) roi swyddogaethau i dribiwnlys.

(11) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sefydlu cofrestr o reolau safle mewn perthynas â safleoedd gwarchodedig yn ei ardal a chadw'r gofrestr yn gyfoes,

(b) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi'r gofrestr gyfoes,

(c) darparu bod rhaid i unrhyw beth y mae'n rhaid ei adneuo yn rhinwedd is-adran (4), (5) neu (6) gael ei adneuo ynghyd â ffi o unrhyw swm a bennir gan yr awdurdod lleol.

(12) Yn yr adran hon ystyr "diwrnod ymgynghori cyntaf" yw'r diwrnod yr hysbysir cynnig a wneir o dan reoliadau o dan is-adran (7) i feddianwyr cartrefi symudol ar y safle yn unol â'r rheoliadau.